
# Newyddion Bethlehem



www.gwe-bethlehem.org trydar: @gwebethlehem   Gwaelod-y-garth   Rhifyn Diwedd yr Hydref 2012





## 'Ynotrwdd Bethlam'

***Ar fore Sul, Tachwedd 18fed, bu Bethlehem yn dathlu penblwydd y Tŷ Cwrdd yn 140 mlwydd oed. Asgwrn cefn yr oedfa o fawl oedd cyflwyniad gorchestol gan un o'r organyddion, yr academydd a'r ieithydd, Yr Athro Peter Wynn Thomas, am hanes addoli yn yr ardal ac, yn fwyaf penodol, am yr adeilad presennol. Un o elfennau hynotaf ei gyfraniad oedd disgrifio'r adeilad yn y Wenhwyseg. Dyma i chi ddetholiad byr o ffrwyth ei ymchwil - a hynny yn y dafodiaith hyfryd fyddai i'w chlywed yma yr adeg honno:***

"Ma gwyr Ciatw yn gwed bod ryw ynotrwdd yn perthyn i'r tŷ cwrdd 'yn. A ma Alwyn yn gwed taw'r ynotrwdd yw taw Bethlam yw'r unig dŷ cwrdd o'i fæth ar ôl yn y partha 'yn. Wel sa gwyr Ciatw yn gwpod popith am anas yr adeilad, ma'n bosib y newitsan nhw 'u meddwl amdano. Wath ma fa wedi newid cryn dicyn ers iddo gæl 'i gwnnu.




"Eddi chi allwch weld Bethlam ar y we. A chi allwch drydaru Bethlam. Ma ynny i'w ddishgwl wath ma gwyr Bethlam wedi dwlu ar ddatblygiada technolegol ariôd. A pin cwnnwd Bethlam, nw fynson y dechnoleg ddiweddara 'ma. Odd tanllwth o dæn ar yr ochor with, a tu ôl i'r tæn odd bwylar mawr yn twymo'r dŵr i wresoci'r pipa. Fi alswn i feddwl bod ynny'n golycu bod raid i rwyn fod yma drw'r nos, ne'n weddol fora o lia, i lwytho glo ar y tæn ac i siciráu nag odd a'n diffod.

"Wenny odd lampa oel ar 'yd y welydd, a pin dæth y gas i'r pentra, nw fynson lampa gas yn 'u lle nhw. A pin odd y lampa gas wedi 'u cynnu, chi glywsich eu sŵn nhw yn shio yn y gwasanath.

"Odd sŵn y lampa gas yn arbennig o amlwg pin fysa 'i'n dawal. Fel yn ystod y cymundab. Ac odd peth arath yn ots bothdu'r cymundab. Pawb a'i ffiol fæch yw 'i eddi. Ond slawar dydd dodd dim cwpana bæch i ddal y gwin. Dou gwpan pewtar mawr odd. Un i'r ochor dde a'r næll i'r ochor with. Ac on ni'n paso'r cwpan o'r naill i'r næll.




"Peth arath sy wedi newid yw'r farnish. Peth dweddar yw'r paent gwyn a glæs. Slawar dydd odd y cyfan wedi 'i farnisho'n frown. Oerwydd ynny odd y tu fiwn i weld yn dwyllach lawar nag yw a eddi.

"Ond y peth sy'n gwbwl wanol eddi i'r 'yn odd a ar y dychra yw'r pulpud. Pulpud newydd yw wn. Odd yr en un yn waniath peth oltwgeddar. Ryw bren coch fel maogani odd a. ***(Parhad ar dudalen 2)***

***ENWAU'R PEDWAR DIACON NEWYDD – gweler tudalen 10***

*(o dudalen 1)*

"A næci un sgwær fel wn, ond un crwn. Ac yn lle bod yn solat fel hwn, odd ffyn rownd i'r ymylon. Ac achos nag odd dim byd rynt y ffyn, chi welsich goesa'r pregethwr pin odd a yn y pulpud. Ond fe æth y pren i bryfetu ac odd yn raid gwaretu'r en bulpud.

"Odd rai'n cretu bod y pulpud newydd fel bocs y tyst mwn llys barn. Ond fe ddwad rai o'r en bobol wthto i taw ap a damwin yw unryw debycrwdd rynt y pulpud a bocs y tyst.

"A dodd dim o'r gwaith plastar ffansi ma y tu ôl i'r pulput. Ryw annar cylch wedi 'i baento odd no, ac atnod rownd i'r annar cylch. A ma'n sobor o flin gin i na wn i beth odd yr atnod.

"Ma organ ginnin ni eddi ond ar y dychra odd dim un organ yma. Fe fysa'r codwr cianu yn iwso pitshfforch. Odd a wastod yn cario'i bitshfforch yn 'i bocad, a'i swno 'i o flæn pob emyn yn y cyrdda i fod yn siwr bysin ni'n starto mwn tiwn.


"Odd un peth yn ots yn y sêt fawr ed. Chi glywsoch am flwch llwch. Ar gyfar pobol sy'n smoco, yntyfa. Wel odd dou flwch itha tepyg i flycha llwch yn y sêt fawr ond ta dou flwch pwyri oen nw. A'r reswm on nw ma odd bod rai o'r diaconiid yn gwitho yn y gwaith glo. Ac odd y lluwch yn mynd iddu sgefin nw. Ac amball waith odd isha peiri'r lluwch mæs o'u sgefin yn ystod y gwasanath. Ac odd amball un yn cnoi baco. A pin bysa'r baco'n colli 'i flæs odd isha peiri wnnw mæs ed."





**Chwech o'r rhai fu'n cymryd rhan yn yr 'Oedfa i Ddiolch am 140 mlynedd o Addoli, Afiaith ac Atgofion':**
***Uchod, o'r chwith:*** **Ann Williams (Yr Eglwys Newydd), aelod hynaf yr eglwys, yna Mary Edwards a Jean Blyth, dwy chwaer sydd wedi geni a'u magu yng Ngwaelod-y-garth a Bethlehem ac yn parhau i fyw yn y pentref ac yn aelodau ffyddlon.**
***Isod o'r chwith:*** **Y ddwy Eirlys Davies, (Pentyrch a Radur) a Delyth Evans, (Yr Eglwys Newydd) oedd yn arwain y canu yn yr hen drefn** ***(rhagor o luniau gyferbyn)***












***(uchod)*** Peter yn adrodd yr hanes

***(dde)*** Alun yn gwahodd Ann Williams i dorri cacen o waith Marian Ifans – a'r haul sy'n llachar, nid golau'r 140 cannwyll!

***(isod chwith)*** Y pedwarawd – Wyn, Delyth, Heulwen a Peredur

***(isod dde)*** Rhodri-Gwynn Jones, awdur emyn newydd ar gyfer y dathliad.







**Nodyn y Gweinidog**

# *TREBL TOP*

Pan oeddwn i'n blentyn yn Llanbrynmair roedd gyda'r Gweinidog garej bren ond ddim car! Bu'r garej yn ei thro yn fan parcio ceir pobol eraill, yn neuadd i steddfod aruchel i rhyw ddwsin o'm ffrindiau, yn lle cadw offer garddio ... ac ar y wal bellaf roedd 'na gannoedd, wel degau 'te, o dyllau mân yn y pren a chylch gwag yn y canol. Fan'no roedd y bwrdd dartiau yn hongian ar hoelen; un o roddion Sion Corn i ddau frawd [y bwrdd nid yr hoelen!]. Y tyllau oedd yr arwydd ein bod ni, fy mrawd Wynn a minnau, nid yn unig wedi methu taro'r *bulls eye* ond wedi methu â tharo'r bwrdd o gwbl. Flynyddoedd yn ddiweddarach, daeth dartiau yn gêm boblogaidd ar deledu a chlywid y floedd ONE HUNDRED AND ... EIGHTY!

Daeth hynny yn ôl i'r cof wedi clywed cyflwyniad ardderchog Peter ar hanes yr achos yng Ngwaelod-y-garth ar fore Sul 18 Tachwedd. 1872 yw dyddiad y Tŷ Cwrdd presennol. Ond mae'r achos yn dyddio n'ôl i 1832 – ie, cant a phedwar ugain mlynedd i eleni. Ninnau yw'r genhedlaeth, y gynulleidfa, sydd yn ceisio gwella'n hanel a tharo'r 'canol llonydd' ys dwedai Morgan Llwyd. Mawr yw ein braint. A mawr fy niolch innau i chwithau am bob cefnogaeth i waith Duw.

Gadewch i ni glywed y floedd fuddugoliaethus eto ar Ŵyl geni'r Gwaredwr 'One ... hundred and ... eighty' a 'Nadolig llawen.'

***R Alun***

**Y Cwrdd Merched**

# Ymweliad â Llancarfan



Bu i Gwrdd Merched Bethlehem ail-ddechrau wedi gwyliau'r haf drwy ymweld ag eglwys Sant Catwg, Llancarfan, ar yr ail ddydd Mawrth o Fedi. Yn dilyn pryd blasus yn y Fox & Hounds aethpwyd i gyfarfod â'r pensaer Alwyn Harding Jones i weld y murluniau trawiadol ddarganfuwyd gan ŵr ifanc craff o gwmni pensaerniaeth Alwyn wrth iddo baratoi ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad hynafol. Wedi cadarnhau bod y smiciau o baent coch welwyd ganddo dan yr haenau presennol o baent ar y muriau yn amlygu bod paentiadau hynafol ynghudd yno, cafwyd nawdd o dros hanner miliwn o bunnoedd o Gronfa'r Loteri a dechreuwyd ar y gwaith hynod fanwl o grafu tua 26 haen o wyngalch a phaent oddi ar y muriau er mwyn dadorchuddio'r lluniau. Braint oedd cael Alwyn ei hun i'n tywys a phrofi o'i wybodaeth drylwyr o'r prosiect.
Mae'n debyg i'r murluniau berthyn i gyfnod y 1460´au ac iddynt fod gyda'r ychydig iawn o enghreifftiau yn Ewrop o'r math yma o waith sydd wedi goroesi. Yn dilyn misoedd o waith mae tri phrif baentiad wedi dod i'r golwg – dehongliad trawiadol a byw iawn o Sant Sior yn lladd y ddraig, dilyniant o luniau o'r saith pechod marwol a llun symbolaidd o angau yn cael ei ddatgelu i ŵr ifanc balch. Mae llawer iawn o waith i'w wneud eto er mwyn dadorchuddio'r holl ddelweddau a hwyrach y cawn ymweld eto wedi i'r gwaith ddod i ben er mwyn cael gweld yr holl luniau yn eu gogoniant.



***Delyth Evans (Croes Cwrlwys)***

[Derbyniwyd Delyth yn aelod gyda ni ddechrau Tachwedd, mae hi wedi dod atom o Gapel yr Alltwen, Cwmtawe, lle bu'n aelod gweithgar iawn ac yn Organyddes. Cyn ei hymddeoliad, roedd yn Swyddog gyda'r Annibynwyr yn Nhy John Penri. Croeso Delyth! ]

# R Alun – dyn yr 'halo'!

***Yn ystod y dathliadau 140 mlynedd, dywedodd yr Athro Peter Wynn Thomas, fod rhywun wedi disgrifio Y Parchedig R. G. Berry, fel un â "halo" o'i gwmpas – gan ychwanegu bod yr eurgylch hwnnw bellach wedi ei etifeddu gan R Alun Evans.***

***Y newydd da ydy bydd yr "halo" ac Alun yn aros i'n gwasanaethu am ddwy flynedd arall. Daeth y newydd da i glyw'r eglwys un bore Sul yn ddiweddar, yn fuan wedi i'r Parchedig Ddoctor R Alun Evans drafod y mater yn y cwrdd diaconiaid. Ymateb y gynulleidfa oedd cymeradwyo'r newydd yn gynnes iawn.***

***Yn ystod y cwrdd diaconiaid, cafwyd datganiad gan y Gweinidog ynglyn â'i fwriad tymor hir (gyda'r ddwy eglwys y mae â gofal trostynt) yn dilyn cwblau ei ymrwymiad gwreiddiol o bum mlynedd wrth y llyw ym Methlehem. Nododd ei barodrwydd i barhau dan y drefn bresennol am gyfnod pellach o ddwy flynedd, hyd ddiwedd 2014, gan roi cyfle yn y cyfamser i Eglwys Bethel, Caerffili a Bethlehem, Gwaelod-y-garth, ystyried trefn newydd ar gyfer eu dyfodol.***

## *Geiriau'r Nadolig*

**Cofiwch gyfrannu tudalen o bapur gyda'ch atgofion, hoff adnod neu gerdd, neu unrhyw sylw - i'w gosod ar wal y festri cyn yr Ŵyl. Mae ffeil yn y cyntedd ar gyfer eich cyfraniad.**





# Caniedydd yn dod adref

**"Good, Campus ac Anfarwol"**

Rai dyddiau nôl daeth Huw Ethall yma i ginio canol dydd. Nid yw byth yn dod yn waglaw. Fel arfer, Rhiannon sy'n elwa o'i haelioni; wedi'r cyfan, hi sy'n coginio! Ond y tro hwn daeth Huw ag anrheg i mi, anrheg werthfawr iawn, sef llyfr emynau "Cyflwynedig gan y Diaconiaid a'r Eglwys i'w Gweinidog y Parchedig R. G. Berry."

'Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd 1921' yw hwn [fe gyhoeddwyd 'Caniedydd' yn ddiweddarach yn 1960 cyn cael ei ddisodli gan 'Caneuon Ffydd' Ionawr 2001].

Yr hyn sy'n gwneud rhodd Huw yn dra arbennig yw nodiadau RGB, mewn pensil, gyferbyn â rhai llinellau a phenillion. Rhoddwyd 'N.B.' ar gyfer y mwyafrif. 'Da' ar gyfer emyn Moelwyn am y 'Pethau Da' . 'Good' i emyn Penllyn am Iesu'r Cyfaill gorau "Paid a'm gadael, annwyl Iesu, yn amddifad yn y byd" tra mae Elfed yn haeddu 'Very Good' am "O Arglwydd Dduw ein tadau, ein craig a'n Tŵr wyt Ti." Mae 'Campus' yn glod uwch, fe dybiwn i, ac Elfed eto am ei emyn "I dawel lwybrau gweddi" sy'n ennyn yr ymateb hwnnw.

'Anfarwol' yw'r sylw i ddau emyn. [Sylwer mai gwrywaidd yw 'emyn' - yr emyn hwn, nid hon]. Glan Geirionydd a Phantycelyn sydd wedi plesio RGB gyda'r ddau emyn "Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd" a "Pererin wyf mewn anial dir." Weithiau mae'n nodi fod pennill yn 'ddramatig' neu'n adlewyrchu 'symlrwydd plentyn'. Nid oes unrhyw sylw am yr emynau Saesneg. Ys dywed Huw Ethall, yn ei grynodeb o'r sylwadau, "Doedd dim 'gwael' neu 'anobeithiol' dim ond graddau gwahanol o ganmol."

Mae cryn draul ac ôl byseddu blynyddoedd ar y gyfrol. Fe ddaeth o lyfrgell T. J. Morgan yn ôl y stamp tu mewn i'r clawr. Braint yw cael ei dal yn fy llaw. Pa greiriau gwerthfawr eraill o orffennol Bethlehem sydd ar gael tybed?

**R Alun**


Cyngerdd

**Y Tri Tenor**



a Chôr y Mochyn Du

**Bethlehem Gwaelod Y Garth**
*Nos Fercher*
**Rhagfyr 19, 7:30yh**

**£10 y tocyn / £5 i blant**

*Elw at:*

AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE

Am docynnau, e-bostiwch:
gwaelodygarth@hotmail.com

# SULIAU 2013


**Ionawr**
**6** Y Parchg. Robin Samuel
**13** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
Gwasanaeth Y Plygain am 4.30y.h.
**20** Y Parchg. Lona Roberts
**27** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**Chwefror**
**3** Y Parchg. Gareth Reynolds
**10** Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans
**17** Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
**24** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**Mawrth**
**3** Gwasanaeth Gwyl Ddewi
**10** Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans
**17** Y Parchg. Cynwil Williams
**24** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**31** (Sul y Pasg) Y Parchg. Jeff Williams
**Ebrill**
**7** Y Parchg. Aled Edwards
**14** Y Parchg.Ddr. R. Alun Evans
**21** Y Parchg. Hywel Wyn Richards
**28** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Mai**
**5** Oedfa Ardal
**12** Y Parchg. Ddr. R.Alun Evans
**19** Oedfa Cymorth Cristnogol
**26** Dim trefniant eto
**Mehefin**
**2** Y Parchg. Aled Edwards
**9** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**16** Y Parchg. Dewi Myrddin Hughes
**23** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**30** Y Parchg. Derwyn Morris Jones
**Gorffennaf**
**7** Y Parchg. Jeff Williams
**14** YParchg. Ddr. R. Alun Evans
**21** Sul y Cyfundeb
**28** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**Awst**
**4** Cymun yn Efail Isaf
**11** Oedfa dan ofal aelodau Bethlehem
**18** Oedfa yn Efail Isaf
**25** Oedfa dan ofal aelodau Bethlehem

**Medi**
**1** Dim Trefniant eto
**8** Y Parchg.Ddr. R.Alun Evans
**15** Y Parchg. Allan Pickard
**22** Y Parchg.Ddr.R. Alun Evans
**29** Y Parchg. John Gwilym Jones
**Hydref**
**6** Y Parchg. Ieuan Davies
**13** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**20** Oedfa Ardal
**27** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**Tachwedd**
**3** Cwrdd Diolchgarwch
**10** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**17** Dim trefniant eto
**24** Y Parchg.Ddr.R. Alun Evans
**Rhagfyr**
**2** Dim trefniant eto
**8** Ymarfer i'r Ysgol Sul yn y bore - Oedfa Gymun am 5yh - Y Gweinidog
**15** Ymweld â Chartre Henoed - Oedfa Naw Llith a Charol am 4.30yh
**22** Gwasanaeth Nadolig y Plant
**25** Gwasanaeth Bore Nadolig (yr Aelodau)
**29** Y Parchg. Dafydd Owen

**Cyfeiriadau:**


**Gweinidog:** **Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, *Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd:** **Rhodri-Gwynn Jones, Ffôn:** 029 20 89 00 39 , ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

**Yr Haf rownd y byd - rhag i ni golli dim!**



***(chwith uchod)*** Gan i ni fethu â chynnwys llun priodas Esther Jane Laugharne *(gynt o'r Wyddgrug),* a Matthew Richard Wills *(Radur)* ym Methlehem ar Orffennaf 14, dyma gyfle i gynnwys llun o'r mis mel. Mae Esther yn gweithio i Gymdeithas Beldroed Cymru, a Matt yn ffisiotherapydd yng Nghastell Nedd. Holwch nhw am hanes y panda! Mae llun o'r briodas ar y dudalen gyferbyn.

***(ar y dde isaf)*** Telynorion ifanc o bob cwr o'r byd fu'n cynnal cyngerdd ym Methlehem ar ddiwedd Gorffennaf. Roedden nhw i gyd yn ddisgyblion Academi Ryngwladol Catrin Finch. Roedd Catrin (ar y dde) ac un arall o'r hyfforddwyr, Elinor Bennet, (chwith) yn perfformio gyda'r disgyblion.

***(ar y dde uchaf)*** Meilyr, Lowri a Marged Sion, Yr Eglwys Newydd, yn Ohio, UDA. Yr achlysur oedd seremoni graddio Lowri gyda gradd mewn Theatr a gradd mewn Seicoleg o Brifysgol Columbus, Ohio. Erbyn hyn mae'n gweithio yn adran Theatr y Coleg, yn rhannu'i hwythnos rhwng gweinyddu a mentora'r myfyrwyr newydd ar y cwrs Sain. Dyw hi ddim wedi bod adre eleni eto felly mae'n edrych ymlaen yn eiddgar at y Dolig pan fydd hi'n dychwelyd i Gymru dros y gwyliau.





Priodas Esther Jane Laugharne a Matthew Richard Wills (gweler manylion ar y dudalen flaenorol)



Priodas Marged Haf o Bentyrch a Daniel Wyatt o'r Beddau ar Fedi 15fed , ym Methlehem. Mae Marged yn Swyddog Cynllunio gyda Chyngor Bwrdeisdref Sirol Rhondda Cynon Taf, a Dan yn Swyddog Asedau a Iechyd a Diogelwch gyda Wales and West Utilities. Bydd y ddau'n ymgartrefu yn Nhreganna, Caerdydd gyda Wini'r gath!



Priodwyd Guto (Davies) a Bethan (Clement) ym Methlehem (yr ola o chwe phriodas yma eleni) ar Fedi 22ain. Ffarmwr o Lansannan yw Guto a Bethan yn un o leisiau mwyaf cyfarwydd Radio Cymru fel Gohebwraig Chwaraeon. Fe'i clywyd, ac fe'i gwelwyd, eleni hefyd o Wimbledon a'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd. Roedd y wledd briodas yn y New House ar fynydd Caerffili. Eu tŷ newydd nhw yw fferm teulu Guto ynghanol pentre Llansannan.







## Bedydd a Bendithio Priodas

Uchod- tri llun (gan Meic Penfro) o wasanaeth bedyddio Carmen Lisi a bendithio priodas ei rhieni, Guqulisizwe Doc a Esyllt Dafydd-Dlamini. ***(chwith)*** Carmen Lisi yn gwrando'n astud ar R Alun ac yn edrych ar y teulu a ffrindiau yn y gynulleidfa. ***(canol)*** Guqulisizwe Doc a Esyllt Dafydd-Dlamini yn darllen y weddi yn ystod y fendith ar eu priodas. ***(dde)*** Carmen Lisi yn cael ei bedyddio gan ein Gweinidog.

Yn ystod y gwasanaeth, canodd Catrin Dafydd a'i chyfnither Amy McGlinchy benillion ar sail englyn gan y Prifardd Rhys Iorwerth, a gyfansoddwyd pan gafodd Carmen Lisi ei geni. Ac fel y cofiwch, cafwyd wythnos o haul ar ddiwedd Mai, yng nghanol dilyw yr haf. Dyma'r englyn:

**Mae 'na las, Carmen Lisi - yma mwy'n**
**awyr Mai eleni:**
**y glaw'n gwneud lle i'r gloywi'n**
**ddi-os o dy achos di!**



**Bedydd Sara Ceindeg Thomas fore Sul, Tachwedd 25, merch Gwenan a Huw a chwaer fach i Megan ac Awen Mair.**

*Ar Hydref 4ydd bu farw un o aelodau gweithgar Bethlehem - Margaret Davies, Radur.*

# "Colli yn dristwch ond cofio yn ddiddanwch"

Dyna eiriau olaf teyrnged gynnes a diffuant Lyn, brawd y ddiweddar Margaret Davies, yn ei hangladd ym Methlehem ar Hydref 11. Er mai 'Margaret' oedd hi i ni ym Methlehem, "Peggy neu Anti Peg" oedd hi i'w thylwyth yn ardal Tre-lech. [Ac unwaith, fe achosodd holi amdani fel Peg Davies ddryswch i'r teulu yn un o ysbytai mawr Caerdydd. "M. E." oedd hi fan honno i'r staff!]

Ond byddai pawb yn gytûn mai dim ond un Margaret Davies oedd yna. Yng ngeiriau Lyn, ei brawd eto, "Roedd ganddi le i bopeth a phopeth yn ei le".

Rai misoedd yn ôl, roedd hi wedi darparu un dudalen o nodiadau am ei gyrfa i'r teulu- i gyd mewn prif lythrennau. Ysgogodd ei negeseuon teuluol mewn prif lythrennau un o blant y teulu i holi unwaith a oedd Anti Peg wedi meistroli "sgrifennu'n sownd"!

Ei huchelgais erioed oedd bod yn nyrs, ac yn 17 mlwydd oed ym Mai 1951, gadawodd Dre-lech i gymhwyso yn Llundain. Wedi iddi gael cyfnodau o hiraethu am ei theulu, fe setlodd a phasio'n SRN erbyn Mai 1954. Erbyn Awst yr un flwyddyn, roedd wedi cyrraedd Ysbyty Castell Nedd gan symud i Gaerdydd y flwyddyn ganlynol.

Bu'n gweithredu fel bydwraig ar ei beic yng Nghaerdydd a chael ei dychrafu yn "sister" ymhen y flwyddyn, cyn dychwelyd i Gastell Nedd. Erbyn 1964, roedd yn 30 mlwydd oed ac yn nyrsio yn Rhydychen. Ymhen dwy flynedd wedi hynny, roedd yn ôl yng Nghaerdydd yn Ddirprwy Fetron Ysbyty Dewi Sant. Yn ddiweddarach, newidiwyd teitl ei swydd - hi bellach oedd Cyfarwyddwraig Nyrsio Ysbyty Frenhinol Caerdydd ac yn y swydd honno y bu hi hyd ei hymddeoliad yn 1971. Roedd wedi gwasanaethu am 41 mlynedd o fewn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol.

Roedd portread Lyn ohoni a'i pherthynas â'i theulu, fodd bynnag, yn rhoi lliw mwy personol i Margaret. Cyflwynodd y ddwy ochr i'w chymeriad - y ferch gref, benderfynol ac uchelgeisiol ac un hefyd oedd yn garedig, yn gefnogol, ac yn mwynhau carco plant y teulu. Ei phrofiad fel nyrs achubodd fywyd ei brawd, Jeff, ar ôl damwain ddifrifol ar y fferm a'i gludo yn ei breichiau hi ar daith car 15 milltir i ysbyty yng Nghaerfyrddin. Teyrnged bellach iddi, oedd mai



"Peggy" sicrhaodd swydd iddo wedi hynny fel porthor mewn ysbyty yn ardal Caerdydd.

Ategwyd geiriau Lyn gan ein Gweinidog, y Parchedig Ddr. R. Alun Evans, oedd yn cwblhau'r darlun - am y Margaret Davies weithgar a ffyddlon ym Methlehem, yn cefnogi'r achos, yn daer dros holl ymgyrchoedd elusennol y capel a'r mudiadau dyngarol lleol. Estynnodd gydymdeimlad cyd-aelodau i'r teulu gan nodi fod gwasanaeth pellach i'w gynnal yr un diwrnod yng Nghapel Y Graig, Tre-lech.

**Pam na ddewch chi gyda ni i ganu**

**CAROLAU**

**mewn gwasanaeth byr**

**yng Nghartref Duffryn Ffrwd, Nantgarw,**

**am 10.30, fore Sul, Rhagfyr 16**

## Braslun o weithgareddau elusen Bethlehem

**Rhagfyr 9fed** Oedfa Gymun yn y nos. Gwin "mulled" di-alcohol a mins pei i ddilyn £1 y pen.

**Rhagfyr 16 fed**. ***(hwyr)*** Naw Llith a Charol. Canu carolau o gwmpas y pentre. Mae Tafarn y Gwaelod am i ni alw yna i berfformio cwpwl o garolau ac fe fyddan nhw'n rhoi "hys-bys" i'n hachos.

**Gwanwyn 2013**. Gwŷr ifanc y capel i drefnu gweithgaredd ar ein cyfer (cynlluniau cyffrous ar y gweill!!!)

**Mawrth 3ydd** Ar ôl gwasanaeth y plant, cawl, bara a chaws a phice yn y festri.

**Gwanwyn 2013.** Eglwys Minny Street a ni ar y cyd yn trefnu sioe ffasiwn gan Cathy Gittins yng Nghlwb Golff Radur

**Mai/Mehefin** – (i'w gadarnhau), Cyngerdd yn y capel.

**Huw a'i Bererindod Heddwch**

# Casglu dros bedair mil



Huw a'i dad, Y Parchedig John Roberts, ger bedd Waldo yng nghapel Blaenconyn, Llandysilio.

Mae'r athletwr a'r cyfrifydd Huw Roberts *(Yr Eglwys Newydd)* wedi cwblhau ei bererindod heddwch yn sir Benfro. Roedd y daith o 45 milltir yn coffau'r bardd a'r heddychwr Waldo Williams gyda Huw yn codi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon ar y daith. Cerddodd mewn haul braf o Aberdaugleddau i Landysilio a chael cwmni ffrindiau a theulu ar hyd y daith gyda chymorth gan Gymdeithas Waldo a Sefydliad Prydeinig y Galon.

Dechreuwyd pob diwrnod gydag Oedfa fer deimladwy mewn canolfannau crefyddol - Tŷ'r Crynwyr yn Aberdaugleddau, Capel Bethlehem a Thabernacl, Maenclochog.

"Roeddwn yn awyddus i ddychwelyd i ardal fy magwraeth ar gyfer y drydedd bererindod" medd Huw sy'n Llysgennad i Sefydliad Prydeinig y Galon, "ac 'roedd y gefnogaeth i'r daith gymunedol yn anhygoel. Ar hyd y daith, cefais fy nghyfarch gan gefnogwyr a phobol yn dymuno'n dda i mi, ac 'roedd hyn yn anogaeth ar hyd y daith."

"Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a helpu ar hyd y daith ac i bobol sydd wedi cyfrannu at Sefydliad Prydeinig y Galon a Chymdeithas Waldo."




Huw gyda rhai wynebau cyfarwydd ymhlith y Pererinion wrth garreg coffa Waldo ger Mynachlogddu.

"Roedd yr ymweliad ag Ysgol Casmael, lle bu Waldo'n dysgu, yn llwyddiannus iawn a'r disgyblion wedi codi swm o £120 trwy hel ceiniogau yn defnyddio enw Waldo."

"Roedd hi'n deimlad arbennig i gwblhau'r daith gyda fy nhad, y Parchedig John Roberts sy'n 87 oed yn cyflwyno bendith wrth fedd Waldo yng Nghapel Blaenconyn lle cefais fy medyddio." *(gweler y llun uchaf)*

Mae'r arian yn parhau i lifo i mewn, gyda dros £4,000 wedi ei godi tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Os hoffech chi gyfrannu i'r achos teilwng yma, gallwch wneud trwy fynd ar lein www.justgiving.com/huwrobertspilgrimageforpeace neu trwy ddanfon siec yn daladwy i Sefydliad Prydeinig y Galon at Mr Huw Roberts, Sefydliad Prydeinig y Galon, Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9EP.

## Stondin Gacennau

Fel y gwyddoch, mae Stondin gacennau yn y festri ar fore Sul y Cymun. Gofynnwn i bob ardal gymeryd tro i gynnal y stondin fel a ganlyn :-

**Rhagfyr 16:** Radur a Dwyrain Caerdydd

**2013**

**Ionawr 13:** Gorllewin Caerdydd
**Chwefror 10:** Yr Eglwys Newydd
**Mawrth 10 :** Gwaelod a Ffynnon Taf
**Ebrill 14:** Creigiau a Phentyrch
**Mai 12:** Radur a Dw Caerdydd
**Mehefin 9:** Gorllewin Caerdydd
**Gorffennaf 8:** Yr Eglwys Newydd

Bydd y diaconiaid ardal yn eich hatgoffa mewn digon o bryd!! Os nad oes awydd coginio arnoch, hwyrach yr hoffech roi cyfraniad. Mae casgliadau at ein helusen yn parhau hyd Orffennaf 2013

## ANFONWN EIN COFION AT:

- **David a Bethan Cartwright**, Radur. Collodd David ei dad yn ystod mis Awst.
- Teuluoedd **Sharon Lloyd** (Yr Eglwys Newydd) a **Sarah Canning** (Llanfihangel-y-fedw) ar ôl i Sharon a Sarah golli eu mam, Mrs Valerie Canning, (Yr Eglwys Newydd) ond yn hanu o ardal Rhos Pontardawe.
- **Hywel Roberts,** (Grangetown - Pentyrch gynt) wedi iddo gael llawdriniaeth yn ddiweddar.

## DYMUNWN DDIOLCH

... i **Eurfryn Thomas** (Radur) am ei wasanaeth maith a ffyddlon fel un o'r Trysoryddion ac fel diacon. Mae bellach wedi rhoi'r gorau i'r cyfrifoldebau hyn ac mae **Ian Hughes** wedi cytuno i weithredu fel un o'r trysoryddion ar y cyd â'r bonwr Peredur Evans.

## Y Cwrdd Diolchgarwch



***(uchod)*** Plant Iau yr Ysgol Sul a'r dosbarth hynaf ***(isod)*** fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth.





***(chwith)*** Pwt yn adrodd hanes ei daith annisgwyl yn Yr Ambiwlans Awyr wedi iddo anafu ei goes ym Mro Morgannwg. ***(isod)*** Y Pum Torth a'r "mŵs" eog - a llaw Heulwen! Cafodd pawb gyfle i'w flasu!



## Ein Diaconiaid newydd (etholwyd ar Dachwedd 25, 2012):

**Eirlys Davies, Pentyrch**
**Huw Lloyd, Radur,**
**Geraint Huws, Ffwrnes Blwm**
**Rhian Huws, Ffwrnes Blwm**

Llongyfarchiadau i'r pedwar